

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 26<sup>th</sup> September 2016** at 7.30pm

**PRESENT:** - His Worship The Mayor, Councillor Dewi Williams  
The Deputy Mayor, Councillor Derek Hainge  
Councillors: - Mrs J Marshall (Chairman) J Wynn Jones M Shultan  
Susan Ashworth Colin King R K Marshall  
Mrs E Butler D Llewelyn J M Martin  
Mrs L Day D Madge N Pickavance  
Mrs J Forsyth Mrs D Bulled

Officer: Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

#### **87/16 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Mair Rowlands and Huw Williams.

#### **88/16 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None.

#### **89/16 URGENT BUSINESS**

None.

#### **90/16 ANNUAL RETURN COMPLETION OF AUDIT 2015/2016 – Receipt of External Audit “Notice of Completion of Audit & Statement of Assurance”**

The Town Clerk reported that he had received a letter from the new External Auditor BDO, Southampton, which had indicated that the Annual Audit of Account and Governance Statement for the year 2015/2016 was now complete. The Notice of Completion of Audit & Statement of Assurance had been received which was given a clean bill of health by the Auditor.

The Auditors had issued a report outlining three matters that needed attention in the forthcoming Financial Year:-

- The engagement letter with Internal Auditor required further detail;
- The budget and reserves explanation needed further detail particularly on the reserves allocated to the Pier Restoration work; and
- Minor issues raised with regard to detailed payments in the Annual Return box No 4.

The Town Clerk reported that these issues had been noted and action would be taken to rectify the issues highlighted by the Auditor.

**RESOLVED** that the Annual Return be approved and accepted by the Council and the issues and actions as indicated by the Town Clerk be noted.

#### **91/16 FINANCIAL REGULATIONS**

The Town Clerk presented a further revision of Financial Regulations for the City of Bangor Council which incorporated new text including the requirements for the accounts (Wales Regulations). It also amended the Financial Regs to fully represent the amended banking details, internet banking and the way the invoices were now approved i.e by any two of the Mayor, Deputy Mayor, Chair and Vice-Chair of the Finance and General Purposes Committee.

**RESOLVED** that the amended Financial Regulations, as presented by the Town Clerk, be approved and adopted by the Council.

#### **92/16 THE 2018 REVIEW OF PARLIAMENTARY CONSITUENCIES IN WALES INITIAL PROPOSALS**

A letter was presented to the Committee regarding the consultation taking place by the Boundary Commission for Wales requesting that any Representations about the proposals should be made within 12 weeks from 13 September 2016.

It was recognised that change was likely, particularly given the fact that Arfon Constituency only had 37,700 electors which was the smallest constituency in Wales. It was noted that the initial proposals intended to create a new constituency containing the existing Ynys Mon and Arfon. This would represent some 77,000 electors. Members considered the issues in detail and although recognising that the Isle of Anglesey was a relatively small constituency, it would seem sensible for it to remain as a single constituency in its own right.

**RESOLVED** that the Town Clerk write to the Boundary Commission indicating that the City Council would prefer Arfon to be linked with electoral wards to the north-east of Bangor, ie Gwynedd and Conwy, should the constituency of Arfon be dissolved.

**93/16 CITY CENTRE PARTNERSHIP (CCP)**

The Town Clerk reported on the recent events and actions taken via the Partnership. These included the Property Façade painting scheme, the links with BID, the improvements to the street scene, support to the POBG with regards to the Festival, also proposals for Christmas illuminations and trees. It was noted that the Strategic Plan was nearing completion and that an Executive Summary had been circulated to all for examination and comment.

A brief discussion ensued on whether there should be a further workshop for City Councillors but given the late stage that the Strategic Plan was at, there was not enough time. It was noted that a session had taken place when the CCP first started up and Councillors had an opportunity to input their views through the lifespan of this Partnership which would end 31 March 2017. It was hoped that new finance would come in form the Vibrant and Viable Places (VVP) scheme.

If Bangor was a successful area for the VVP grant then the new Strategic Partnership would undertake work connected with the aims and policies in the Strategic Plan as well as the Outline Action Plan with was under construction.

**RESOLVED** that the report be received and the CCP be congratulated on its work so far. It was also recommended that should the VVP monies come in then a workshop to be set up to establish Councillors viewpoints.

**94/16 FINANCIAL MATTERS –**

**Invoices** – The Town Clerk reported that under the new signing arrangements the invoices had been approved for payment as detailed on the schedule covering voucher numbers B1/16 – B11/16 totalling £16,531.42. The invoices were available for any Member to see if necessary. **RESOLVED** that the payments be noted.

**Quarterly Accounts** - Members received the Quarterly Accounts for April, May, June 2016.

**RESOLVED** that the Quarterly Accounts be received and noted.

**95/16 LOCAL GOVERNMENT RE-ORGANISATION AND BOUNDARY CHANGES**

The Town Clerk had previously circulated correspondence received from The North and Mid Wales Association of Local Councils regarding the proposed boundary reviews of Town and Community Councils which was being undertaken by the Boundary Commission for Wales. The correspondence asked for views of the Council for which the Town Clerk had made some suggested responses.

**RESOLVED** that Members should supply their views to the Town Clerk, if there were any, by 4pm on Friday 30<sup>th</sup> September, 2016.

---

The Meeting ended at 8.20pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun, 26<sup>ain</sup> o Fedi 2016** am 7.30 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Dewi Williams  
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Derek Hainge  
Y Cynghorwyr Mrs J Marshall (Cadeirydd) J Wynn Jones M Shultan  
Susan Ashworth Colin King R K Marshall  
Mrs E Butler D Llewelyn J M Martin  
Mrs L Day D Madge N Pickavance  
Mrs J Forsyth Mrs D Bulled

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

### 87/16 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mair Rowlands a Huw Williams.

### 88/16 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

### 89/16 MATERION BRYS

Dim.

### 90/16 CWBLHAU FFURFLEN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2014/2015 – Archwiliad Allanol

**Nodi derbyn o'r Archwiliad Allanol "Hysbysiad Cwblhau Archwiliad a Datganiad o Sicrwydd"**

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn llythyr gan yr Archwilydd Allanol newydd, BDO, Southampton, a oedd yn nodi fod yr Archwiliad Blynyddol o Gyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn 2015/2016 bellach wedi'u cwblhau. Derbyniwyd yr Hysbysiad Cwblhau'r Archwiliad a'r Datganiad Sicrwydd ac roeddent wedi cael sêl bendith yr Archwilydd.

Roedd yr Archwilwyr wedi cyhoeddi adroddiad a oedd yn amlinellu tri mater a oedd angen sylw yn y Flwyddyn Ariannol sy'n dod:-

- Roedd llythyr ymrwymo'r Archwilydd Mewnol angen mwy o fanylion;
- Roedd angen mwy o fanylion ar yr eglurhad am y gyllideb a'r arian wrth gefn, yn enwedig yr arian wrth gefn a ddynodwyd ar gyfer gwaith Adfer y Pier; a
- Chodwyd mân faterion o safbwynt manylion y taliadau ym mlwch Rhif 4 y Datganiad Blynyddol.

Adroddodd Clerc y Dref fod y materion hyn wedi cael eu nodi ac y byddai camau'n cael eu cymryd i unioni'r materion a amlygwyd gan yr Archwilydd.

**PENDERFYNWYD** fod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn derbyn y Datganiad Blynyddol a bod y materion a'r camau a grybwyllwyd gan Glerc y Dref yn cael eu nodi.

### 91/16 RHEOLIADAU ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiwygiad pellach o'r Rheoliadau Ariannol i Gyngor Dinas Bangor a oedd yn ymgorffori testun newydd i gynnwys y gofynion o ran y cyfrifon (Rheoliadau Cymru). Roedd hefyd wedi diwygio'r Rheoliadau Ariannol fel eu bod yn dangos y manylion bancio newydd yn llawn, y bancio rhyngryd a'r ffordd y mae anfonebau'n cael eu cymeradwyo erbyn hyn h.y. gan unrhyw ddau o blith y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

**PENDERFYNWYD** fod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig, fel ag y'u cyflwynwyd gan Glerc y Dref.

### 92/16 AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMURU - CYNIGION CYCHWYNNOL

Cyflwynwyd llythyr i'r Pwyllgor am yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ac yn gofyn i unrhyw sylwadau am y cynigion gael eu cyflwyno o fewn 12 wythnos i 13 Medi 2016.

Y teimlad oedd bod newid yn debygol, yn enwedig o ystyried mai dim ond 37,000 o etholwyr oedd yn Etholaeth Arfon, yr etholaeth leiaf yng Nghymru. Nodwyd fod y cynigion cychwynnol yn bwriadu creu etholaeth newydd a fyddai'n cynnwys yr etholaethau Ynys Môn ac Arfon presennol. Byddai hon yn cynrychioli tua 77,000 o etholwyr. Bu'r aelodau'n trafod y pwnc yn fanwl, ac er eu bod yn cydnabod fod Ynys Môn yn etholaeth weddol fach hefyd, mai doeth fyddai iddi aros fel etholaeth ar ei phen ei hun.

**PENDERFYNWYD** fod Clerc y Dref i ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau yn dweud y byddai'n well gan Gyngor y Ddinas pe bai Arfon yn cael ei chysylltu â wardiau i'r gogledd-ddwyrain o Fangor, hy Gwynedd a Chonwy, pe bai etholaeth Arfon yn cael ei diddymu.

**93/16 PARTNERIAETH CANOL Y DDINAS**

Adroddodd Clerc y Dref ar y digwyddiadau a'r camau diweddar a gymerwyd drwy'r Bartneriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y cynllun peintio Blaen Siop, y cysylltiadau â'r AGB, y gwelliannau i'r strydlun; cefnogaeth i Grŵp Cymunedol Pobl Bangor gyda'r Wyl, hefyd cynigion ar gyfer goleuadau a choed Nadolig. Nodwyd fod y Cynllun Strategol bron â bod yn barod a bod Crynodeb Gweithredol wedi'i anfon i bawb i'w archwilio a rhoi sylwadau arno.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch a ddylid cael gweithdy pellach i Gynghorwyr y Ddinas ond oherwydd bod y Cynllun Strategol yn tynnu tua'r terfyn, nid oedd digon o amser. Nodwyd fod sesiwn wedi cael ei chynnal pan ddechreuodd y Bartneriaeth a bod y Cynghorwyr wedi cael cyfle i roi eu barn drwy gydol oes y Bartneriaeth a fyddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Y gobaith oedd y byddai cyllid newydd yn dod i mewn o'r cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Pe bai Bangor yn llwyddo i gael y grant uchod, yna byddai'r Bartneriaeth Strategol newydd yn ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â nodau ac amcanion y Cynllun Strategol yn ogystal â'r Cynllun Gweithredu Amlinellol a oedd ar y gweill.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a llongyfarch Partneriaeth Canol y Ddinas ar ei gwaith hyd yma. Argymhellwyd hefyd, pe bai'r Cyngor yn llwyddo i gael cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, y byddai gweithdy'n cael ei drefnu i holi barn y Cynghorwyr.

**94/16 MATERION CYLLID –**

**Anfonebau** - Adroddodd Clerc y Dref fod yr anfonebau, o dan y trefniadau llofnodi newydd, wedi cael eu cymeradwyo i'w talu fel ag y manylwyd ar y rhestr o dalebau rhif B1/16 – B11/16, sef cyfanswm o £16,531.42. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw Aelod eu gweld os oedd angen. **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

**Cyfrifon Chwarterol** – Derbyniodd yr Aelodau y Cyfrifon Chwarterol ar gyfer Ebrill, Mai, Mehefin 2016.

**95/15. NEWIDIADAU FFINIAU ac AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL**

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ynglŷn â'r bwriad i adolygu ffiniau Cynghorau Tref a Chymuned a oedd yn cael ei wneud gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Roedd yr ohebiaeth yn gofyn am farn y Cyngor ac roedd Clerc y Dref wedi awgrymu rhai ymatebion.

**PENDERFYNWYD** fod yr Aelodau i roi eu barn i Glerc y Dref, os dymument, erbyn 4pm ddydd Gwener 30 Medi 2016.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm